# Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

**2019 dccc 4**

## RHAN 3

AMRYWIOL

### 38 Pŵer i ddisodli disgrifiadau o ddyddiadau ac amseroedd yn neddfwriaeth Cymru

(1) Pan fo darpariaeth mewn unrhyw ddeddfwriaeth y mae'r adran hon yn gymwys iddi yn disgrifio dyddiad neu amser drwy gyfeirio at ddyfodiad deddfiad i rym neu unrhyw ddigwyddiad arall, caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r ddarpariaeth drwy reoliadau fel ei bod yn cyfeirio at y gwir ddyddiad neu amser (unwaith y bydd yn hysbys).

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) hefyd—

(a) diwygio'r ddeddfwriaeth er mwyn cynnwys esboniad o'r dyddiad neu'r amser y maent yn ei fewnosod;

(b) gwneud diwygiad canlyniadol sy'n diwygio, yn diddymu, neu'n dirymu unrhyw ddeddfiad.

(3) Mae'r adran hon yn gymwys i'r ddeddfwriaeth a ganlyn (pryd bynnag y'i deddfir neu i'i gwneir)—

(a) Deddfau'r Cynulliad a Mesurau'r Cynulliad;

(b) is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddfau'r Cynulliad a Mesurau'r Cynulliad;

(c) unrhyw is-ddeddfwriaeth arall a wneir gan Weinidogion Cymru neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38) nad yw ond yn gymwys o ran Cymru;

(d) unrhyw ddeddfiad arall, i'r graddau y caiff ei ddiwygio gan ddeddfwriaeth a grybwyllir ym mharagraff (a), (b) neu (c).

### 39 Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurfiau gwahanol

(1) Pan fo gan Weinidogion Cymru bŵer neu ddyletswydd i wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurf rheoliadau, rheolau neu orchymyn a wneir drwy offeryn statudol, cânt arfer y

pŵer neu'r ddyletswydd drwy wneud yr is-ddeddfwriaeth ar unrhyw un o'r ffurfiau eraill hynny drwy offeryn statudol.

(2) Nid yw hyn yn effeithio ar y weithdrefn ar gyfer gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys yr is-ddeddfwriaeth.

(3) Mae cyfeiriad mewn unrhyw ddeddfiad, offeryn neu ddogfen at reoliadau, rheolau neu orchymyn a wneir o dan y pŵer neu'r ddyletswydd yn cynnwys is-ddeddfwriaeth a wneir odano neu odani mewn unrhyw ffurf arall drwy ddibynnu ar is-adran (1).

(4) Nid yw is-adran (1) yn gymwys i is-ddeddfwriaeth—

(a) a wneir o dan Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig neu ddeddfwriaeth uniongyrchol UE a ddargedwir, a

(b) sy'n gymwys ac eithrio o ran Cymru.

**40 Cyfuno is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol yn y Cynulliad**

(1) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud, neu'n bwriadu gwneud, offeryn statudol a fyddai fel arall yn ddarostyngedig i ddwy neu ragor o weithdrefnau gwahanol yn y Cynulliad o ganlyniad i'r is-ddeddfwriaeth y mae'n ei chynnwys, mae pa un bynnag o'r gweithdrefnau hynny yn y Cynulliad a grybwyllir gyntaf yn is-adran (2) yn gymwys i'r offeryn (ac nid yw'r un o'r gweithdrefnau eraill yn y Cynulliad yn gymwys).

(2) Yn yr adran hon, ystyr "gweithdrefn yn y Cynulliad" yw gweithdrefn sy'n cael yr effaith—

(a) na chaniateir gwneud offeryn statudol (neu'r is-ddeddfwriaeth y mae'n ei chynnwys) oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad,

(b) bod rhaid gosod offeryn statudol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl iddo gael ei wneud a rhaid iddo gael ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn i'r is-ddeddfwriaeth y mae'n ei chynnwys ddod i rym neu barhau mewn grym,

(c) bod offeryn statudol yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru,

(d) bod rhaid gosod offeryn statudol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl iddo gael ei wneud, neu

(e) nad yw'n ofynnol i offeryn statudol gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar unrhyw adeg.

(3) Nid yw'r ffaith bod Gweinidogion Cymru wedi gwneud is-ddeddfwriaeth mewn offeryn statudol y mae is-adran (1) yn gymwys iddo yn—

(a) eu hatal rhag gwneud is-ddeddfwriaeth bellach mewn offeryn statudol nad yw'r is-adran honno yn gymwys iddo, na

(b) effeithio ar y weithdrefn yn y Cynulliad sy'n gymwys i offeryn o'r fath.

(4) Nid yw is-adran (1) yn gymwys i offeryn statudol sy'n cynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth—

(a) a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig neu ddeddfwriaeth uniongyrchol UE a ddargedwir, a

(b) sy'n gymwys ac eithrio o ran Cymru.